Canllaw i Fudd-dal Analluogrwydd - yr Asesiad Gallu Personol

Cynnwys

Terminoleg **2**

Cyflwyniad **3**

Sicrhau ansawdd **3**
Ein Safonau Gwasanaeth 3
Egwyddorion gwneud penderfyniadau 4
Gwneud penderfyniadau 4
Ansawdd meddygol - y broses gymeradwyo 4
Sut mae'r broses gymeradwyo'n gweithio 4
Cynnal cymeradwyaeth 5
Safonau proffesiynol y Ganolfan Byd Gwaith 5
Dilysu Ansawdd Meddygol 6

Yr Asesiad Gallu Personol **6**
Gweithgareddau 7
Cyfuniadau o anableddau 8
Analluogrwydd nad yw'n weithrediadol 8
Categorïau wedi'u heithrio 9

Cymhwyso'r Asesiad Gallu Personol **10**
Holiadur 10
Yr archwiliad meddygol 11

Yr asesiad o iechyd meddwl **12**
Problemau iechyd meddwl difrifol 12
Problemau iechyd meddwl ysgafn/cymedrol 12
Disgrifwyr gweithrediad meddyliol 12

Sut y penderfynir ar asesiadau **13**
Rôl y swyddog penderfyniadau 13
Gwybodaeth am y penderfyniad 14

Cofnodi newidiadau mewn amgylchiadau **15**
Os bydd eich analluogrwydd yn newid neu os bydd eich cyflwr yn gwella 15

Disgrifwyr a sgoriau ar gyfer pob gweithgaredd **15**
Eistedd mewn cadair syth gyda chefn ond heb freichiau 15
Codi o fod yn eistedd mewn cadair syth gyda chefn ond heb freichiau 16
Plygu a phenlinio 16
Sefyll heb gymorth person arall; gellir defnyddio ffon gerdded 16
Cerdded ar lawr gwastad gyda ffon gerdded neu gymorth arall os

y'i defnyddir fel arfer 16
Cerdded i fyny ac i lawr y grisiau 17
Medrusrwydd â dwylo 17
Ymestyn 17
Codi a chario gan ddefnyddio rhan uchaf y corff a'r breichiau 18
Golwg mewn golau dydd arferol gyda sbectol 18
Lleferydd 18
Clywed gyda chymorth clywed os y'i defnyddir 18
Aros yn ymwybodol heb gael trawiad epileptig
neu drawiadau tebyg pan yn effro 19
Ymataliaeth (heblaw enwresis - gwlychu'r gwely) 19

Disgrifwyr iechyd meddwl **19**
Cwblhau tasgau 19
Byw o ddydd i ddydd 20
Ymdopi â phwysau 20
Rhyngweithio â phobl eraill 20

Rhagor o wybodaeth **20**

Mynegai **21**

Terminoleg

gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (meddyg neu nyrs) a gymeradwywyd gan Brif Ymgynghorydd Meddygol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Swyddog penderfyniadau Y person sy'n penderfynu a fydd gan berson hawl i gael budd-dal.

Anabledd Nam neu gyfyngiad ar allu ym mhob maes gweithgaredd.

Anallu nad yw'n weithrediadol Amodau lle er y gallai'r unigolyn gyflawni'r gweithgareddau yn yr Asesiad Gallu Personol byddent yn cael eu trin fel bodloni trothwy at ddibenion
budd-dal analluogrwydd.

Prawf Galwedigaeth Bersonol Prawf a roddir i bobl yn ystod 28 wythnos cyntaf analluogrwydd sy'n asesu a all unigolion wneud eu swyddi eu hunain.

Asesiad Gallu Personol Asesiad meddygol a ddefnyddir i benderfynu a yw unigolyn yn cael ei ystyried yn un a all fodloni'r trothwy analluogrwydd at ddibenion budd-daliadau.

Trothwy analluogrwydd Y lefel y mae effeithiau clyfwr meddygol unigolyn ar eu galluoedd gweithrediadol yn golygu eu bod, at ddibenion budd-daliadau, yn cael eu trin fel rhwyun sy'n allalluog yn hytrach na di-waith.

Cyflwyniad

Yr Asesiad Gallu Personol yw'r prif brawf meddygol ar gyfer cwsmeriaid sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd. Mae'n pennu trothwy analluogrwydd y mae'n rhaid ei gyrraedd fel un o'r amodau ar gyfer hawl i gael budd-daliadau. Felly, y prif reswm dros gymhwyso'r Asesiad Gallu Personol yw pennu p'un a oes gan berson hawl i gael budd-daliadau.

Mae defnydd arall o'r Asesiad Gallu Personol yn cael ei dreialu ochr yn ochr â gwasanaethau ymgynghorydd personol mewn nifer o ardaloedd. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud er gwaethaf eu salwch neu anabledd yn ogystal â phennu a yw'r trothwy analluogrwydd yn cael ei gyrraedd. Pan fydd hyn yn berthnasol, gall y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd gynhyrchu Adroddiad Gallu ar wahân a fydd yn cynnwys gwybodaeth am alluoedd y cwsmer ac unrhyw help y gallai fod ei angen arnynt i ddychwelyd i'r gwaith. Anfonir yr Adroddiad Gallu at ymgynghorydd personol y cwsmer a fydd yn ei ddefnyddio wrth roi cymorth effeithiol i wella cyflogadwyedd y cwsmer ac wrth gynllunio i ddychwelyd i'r gwaith. Ni fydd y swyddog penderfyniadau yn gweld yr Adroddiad Gallu ac ni chaiff ei ddefnyddio wrth bennu'r cais i gael budd-daliadau. Cynghorir cwsmeriaid os bydd Adroddiad Gallu yn cael ei baratoi yn eich achos.

Mae'r Asesiad Gallu Personol yn berthnasol i Fudd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol, credydau Yswiriant Gwladol ar gyfer analluogrwydd ac wrth benderfynu p'un a gaiff y premiwm anabledd ei ddyfarnu ar sail analluogrwydd o ran Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Mae'r daflen hon yn nodi manylion yr asesiad a sut mae'n gweithredu'n ymarferol.

Caiff gwasanaethau meddygol ar gyfer y Ganolfan Byd Gwaith eu contractio i gwmni preifat. Mae'r cwmni hwn yn cyflenwi'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd a fydd yn rhoi barn feddygol annibynnol o allu gweithrediadol i swyddog penderfyniadau'r Ganolfan Byd Gwaith. Y swyddog penderfyniadau sy'n gyfrifol am bennu a yw'r trothwy analluogrwydd yn cael ei gyrraedd gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael.

Sicrhau ansawdd

Ein Safonau Gwasanaeth

Mae taflen Ein Safonau Gwasanaeth y Ganolfan Byd Gwaith yn nodi safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl, beth y gallwch ei wneud i'n helpu ni i'ch helpu chi a beth y gallwch ei wneud os bydd pethau'n mynd o'i le. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am ein gwasanaeth os byddwch yn gwneud cais am fudd-

dal, yn helpu rhywun sy'n gwneud cais am fudd-dal neu os byddwch am gael gwybodaeth am fudd-daliadau.

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn eich helpu drwy:

- ymdrin â'ch cais mor gyflym â phosibl a rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am gynnydd a phenderfyniadau
- bod yn gwrtais ac yn hawdd siarad â nhw
- rhoi cyngor a gwybodaeth gywir i chi am fudd-daliadau
- bod yn deg
- dilyn rheolau'r Ddeddf Nawdd Cymdeithasol a'r Ddeddf Diogelu Data, ac egwyddorion Llywodraeth Agored, a
- gofyn am eich sylwadau a'u defnyddio i roi'r gwasanaeth rydych am ei gael i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am Siarter y Cwsmer, darllenwch daflen OOSA5JPW 'Y Ganolfan Byd Gwaith - Ein Safonau'.

Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Gwneir penderfyniadau ynglŷn â budd-daliadau gan swyddogion penderfyniadau sydd wedi cael yr hyfforddiant ac sy'n meddu ar y profiad priodol i wneud hynny. Mae'n rhaid i'r swyddog penderfyniadau wneud penderfyniad gan ystyried yr holl dystiolaeth a chymhwyso'r gyfraith i ffeithiau pob cais. Mae'n rhaid i'w safbwynt fod yn rhesymol a rhaid ei wneud gyda disgresiwn diduedd.

Gwneud penderfyniadau

Nodir rôl y swyddog penderfyniadau yn yr Asesiad Gallu Personol ar dudalen 21. Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad, mae hawl gennych i ofyn i ni edrych ar eich cais eto. Ceir manylion llawn am hyn ar dudalen 22.

Ansawdd meddygol - y broses gymeradwyo

Mae proses gymeradwyo, y cytunwyd arni gan Brif Ymgynghorydd Meddygol yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn ein helpu i sicrhau:

- bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn gweithio i safon uchel yn gyson ledled y wlad, a
- bod cwsmeriaid yn cael asesiad trylwyr a gwrthrychol o'r ffordd y mae eu salwch neu anabledd yn effeithio ar eu gallu i gyflawni'r gweithgareddau yn yr Asesiad Gallu Personol.

Sut mae'r broses gymeradwyo'n gweithio

Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys asesiad ffurfiol o nodweddion canlynol y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol:

- sgiliau

- gwybodaeth, ac
- agwedd at gwsmeriaid.

Mae'r broses gymeradwyo yn helpu i sicrhau y gall pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd gynhyrchu adroddiadau boddhaol ar gyflwr meddygol claf sy'n cyrraedd y safonau proffesiynol a meddygol a ddisgwylir gan y Ganolfan Byd Gwaith. Er mwyn cael cymeradwyaeth barhaus yr Ysgrifennydd Gwladol mae'n rhaid i berfformiad parhaus y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn foddhaol a rhaid iddynt fynychu digwyddiadau hyfforddiant yn y dyfodol.

Rhennir y broses gymeradwyo yn bedwar cam, wedi'i ddilyn gan broses gyfunol.

Cam 1 - Y cwrs hyfforddi rhagnodedig
Cwrs hyfforddi rhagnodedig yw hwn sy'n cynnwys o leiaf dri diwrnod o hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn cynnwys:

- hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid
- dadansoddi cyfweliadau tâp fideo gyda chwsmeriaid
- edrych ar enghreifftiau o waith achos
- ymarfer ysgrifennu adroddiadau meddygol Budd-dal Anallu ogrwydd ar gyfer yr Asesiad Gallu Personol, a
- pwyslais ar asesu iechyd meddwl y cwsmer.

Cam 2 - Asesiad ysgrifenedig o wybodaeth feddygol
Mae hyn yn cynnwys prawf ysgrifenedig y mae'n rhaid ei gwblhau i safon foddhaol.

Cam 3 - Hyfforddiant ymarferol dan oruchwyliaeth ac arfarniad
Yn ystod y cam hwn mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiadau o dan oruchwyliaeth hyfforddwr profiadol. Mae'r pwyslais ar:

- gwasanaeth cwsmeriaid
- dulliau asesu meddygol, a
- sgiliau ysgrifennu adroddiadau.

Caiff y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gymeradwyaeth dros dro i gynnal asesiadau meddygol heb oruchwyliaeth unwaith y byddant wedi cwblhau tri cham cyntaf y broses gymeradwyo yn llwyddiannus.

Cam 4 - Arfarnu gwaith achos
Yn ystod y cyfnod o gymeradwyaeth dros dro, bydd hyfforddwr y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn asesu'r holl adroddiadau Budd-dal Anallu ogrwydd a gaiff eu cwblhau gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hyd nes y ceir sicrwydd ei fod yn gymwys. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf un adroddiad ar broblemau iechyd meddwl cwsmer.

Cynnal cymeradwyaeth

Er mwyn cynnal cymeradwyaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mae'n rhaid iddynt barhau i fodloni'r safonau ansawdd gofynnol.

Safonau proffesiynol y Ganolfan Byd Gwaith

Mae'r safonau proffesiynol hyn yn cwmpasu'r ymddygiad a ddisgwyliwn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar ein rhan.

Mae hyn yn golygu y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn:

- sicrhau bod cwsmeriaid yn teimlo'n gartrefol a chysurus
- cyflwyno eu hunain a gwisgo bathodyn enw
- disgrifio diben a natur yr asesiad meddygol
- annog y cwsmer i ddod â ffrind neu berthynas i'r asesiad meddygol os byddant yn dymuno gwneud hynny
- caniatáu digon o amser i'r cwsmer drafod eu cyflwr meddygol
- cynnal yr archwiliad yn ofalus i osgoi unrhyw anesmwythyd diangen i'r cwsmer
- ateb unrhyw gwestiwn rhesymol.

Caiff cwynion am y ffordd y cynhelir archwiliadau eu hystyried gan y gwasanaethau meddygol. Mae manylion llawn am weithdrefnau cwyno ar gael i gwsmeriaid pan fyddant yn mynychu archwiliadau.

Dilysu Ansawdd Meddygol

Prif Ymgynghorydd Meddygol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am ddilysu'r holl brosesau ansawdd meddygol ar ran y Ganolfan Byd Gwaith.

Yr Asesiad Gallu Personol

Cynhelir yr Asesiad Gallu Personol ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid ar ôl y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd. Bydd yn asesu p'un a ystyrir bod y person yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd at ddibenion budd-daliadau, er mwyn pennu a oes hawl ganddo i gael budd-daliadau analluogrwydd. Yn ystod y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd caiff y rhan fwyaf o bobl â galwedigaeth reolaidd eu hasesu yn erbyn eu gallu i gyflawni eu swydd. Gelwir hyn yn brawf 'galwedigaeth bersonol'.

Mae'r Asesiad Gallu Personol yn ystyried effeithiau unrhyw gyflwr meddygol neu anabledd ar allu unigolyn i gynnal amrywiaeth o weithgareddau bob dydd sy'n berthnasol i'r Asesiad Gallu Personol.

Bydd hyn yn cynnwys:

- **gweithgareddau'r** corff a'r meddwl, er enghraifft, cerdded, eistedd a sefyll, sy'n berthnasol i allu i weithio
- **disgrifwyr** - datganiadau wedi'u geirio'n glir o allu gweithrediadol wedi'i raddio yn ôl eu heffaith i analluogi ar gyfer pob gweithgaredd. Pan fydd

mwy nag un disgrifydd yn berthnasol ar gyfer unrhyw weithgaredd, dim ond y sgôr uchaf fydd yn cyfrif

- **trothwyon ar gyfer budd-daliadau** – y lefel ar gyfer pob gweithgaredd pan fydd effaith y cyflwr meddygol yn golygu y caiff y person ei drin fel ei fod wedi'i analluogi at ddibenion budd-daliadau, neu'n uwch na'r lefel honno
- **trothwyon is** - y lefel ar gyfer pob gweithgaredd pan fydd effeithiau'r cyflwr meddygol yn dechrau effeithio ar allu i gyflawni'r gweithgareddau yn yr asesiad. Nid ystyrir problemau sy'n llai difrifol na'r trothwy hwn
- **sgôr, neu set o sgorau** - ar gyfer y disgrifwyr, sy'n cyrraedd y trothwy is neu sy'n uwch na hynny, ac sy'n is na'r trothwy ar gyfer budd-daliadau, fel y gellir asesu effaith cyfuniadau o weithrediadau â nam arnynt. Er cyfleustra, cyfeirir at nam neu gyfyngiad o ran gallu ym mhob maes gweithgaredd fel ‘anabledd’ yn y daflen hon. Sgôr o sero a roddir i ddisgrifwyr sy'n disgrifio lefel o nam y bernir nad yw'n cael effaith sylweddol ar allu i gyflawni'r gweithgareddau yn yr asesiad
- **analluogrwydd nad yw'n weithrediadol** – amodau lle er y gallai'r person gynnal y gweithgareddau yn yr Asesiad Gallu Personol, cânt eu trin fel eu bod yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd at ddibenion budd-daliadau.

Gweithgareddau

Y gweithgareddau sy'n berthnasol i'r asesiad yw:

- Eistedd
- Ymestyn
- Codi o eistedd
- Codi a chario
- Plygu a phenlinio
- Golwg
- Sefyll
- Lleferydd
- Cerdded
- Clywed
- Cerdded i fyny ac i lawr y grisiau
- Cadw'n ymwybodol
- Medrusrwydd â dwylo
- Ymataliaeth

Yn ogystal ceir pedwar gweithgaredd meddyliol:

- Cwblhau tasgau
- Ymdopi â phwysau
- Byw o ddydd i ddydd
- Rhyngweithio â phobl eraill

Mae'r adran 'Asesiad iechyd meddwl' (tudalen 19) yn disgrifio'r asesiad o anableddau iechyd meddwl. Mae'r adrannau 'Disgrifwyr a sgorau ar gyfer pob

gweithgaredd' (tudalen 24) a 'Disgrifwyr iechyd meddwl' (tudalen 30) yn disgrifio beth yw'r gweithgareddau, y disgrifwyr o fewn pob un ohonynt a'r sgorau cysylltiedig. Er enghraifft, o fewn y gweithgaredd ‘Cerdded' mae saith disgrifydd:

a) Methu cerdded o gwbl
b) Methu cerdded mwy nag ychydig gamau heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn
c) Methu cerdded mwy na 50 metr heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn
ch) Methu cerdded mwy na 200 metr heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn
d) Methu cerdded mwy na 400 metr heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn
dd) Methu cerdded mwy na 800 metr heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn
e) Dim problem wrth gerdded.

O fewn pob gweithgaredd, mae'r disgrifwyr yn cwmpasu ystod o allu.

Cyfuniadau o anableddau

Mae gan lawer o bobl sy'n cael Budd-daliadau Analluogrwydd ddau anabledd neu fwy. Felly mae'r asesiad yn cynnwys ffordd o asesu effeithiau cyfunol anableddau gwahanol, gyda sgorau wedi'u pwysoli ar gyfer pob disgrifydd perthnasol.

Bydd pobl â chyfuniad o anableddau a phob un ohonynt yn cyrraedd y trothwy is neu'n uwch na hynny, ond sy'n is na'r trothwy ar gyfer budd-daliadau, yn gymwys os bydd y sgorau ar gyfer yr anableddau hyn yn dod i 15 neu fwy. Er enghraifft, efallai y gall rhywun gerdded 50 metr neu fwy ond na all gerdded am 200 metr heb stopio neu deimlo'n anghysurus iawn. Byddai hyn ar ei ben ei hun yn cael sgôr o 7. Fodd bynnag, os byddai'r person hefyd yn cael anhawster gyda 'Medrusrwydd â dwylo' fel na allent glymu careiau esgidiau, gweler tudalen 26, byddai hyn yn sgorio 10 arall. Byddai'r cyfanswm o 17 yn golygu bod y person yn uwch na'r trothwy o 15 a byddent yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd.

Pan fydd person yn sgorio ar gyfer 'Cerdded’ a ‘Cherdded i fyny ac i lawr y grisiau', dim ond y sgôr uchaf fydd yn berthnasol.

Analluogrwydd nad yw'n weithrediadol

Mae lleiafswm o gyflyrau nad oes angen asesiad gweithrediadol ar eu cyfer. Er enghraifft, gallai'r unigolyn gyflawni'r holl weithgareddau yn yr asesiad, ond byddai'n dal yn rhesymol i'w trin fel pe baent yn analluog at ddibenion budd-daliadau.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn y sefyllfa hon yn cael asesiad teg o'u hanalluogrwydd, ar ôl cynnal yr asesiad gweithrediadol, bydd angen i swyddog penderfyniadau ystyried p'un a oes tystiolaeth o'r canlynol:

- afiechyd difrifol heb ei reoli neu na ellir ei reoli
- neu gyflwr a allai fygwth bywyd na chafodd ei ganfod yn flaenorol
- neu fod angen llawdriniaeth feddygol fawr neu weithdrefn therapiwtig bwysig arall ar y person o fewn tri mis i ddyddiad yr asesiad meddygol
- neu bod y person yn dioddef o glefyd neu anabledd penodol ac, o ganlyniad i hyn, byddai risg sylweddol i iechyd meddwl neu iechyd corfforol unrhyw unigolyn os canfuwyd ei fod yn gallu gweithio.

Fel arfer bydd y dystiolaeth sydd ar gael i'r swyddog penderfyniadau yn cynnwys cyngor gan 'weithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd'. Mae hyn yn golygu gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd gan Brif Ymgynghorydd Meddygol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ôl iddynt gwblhau rhaglen o hyfforddiant ac arfarniad. Mae'r adran 'Sicrhau ansawdd' (tudalen 7) yn disgrifio sut mae'r broses gymeradwyo yn gweithio.

Categorïau wedi'u heithrio

Cydnabyddir bod rhai cyflyrau meddygol yn peri cymaint o anabledd fel y gellir ystyried bod y trothwy analluogrwydd wedi'i gyrraedd heb fod angen asesiad meddygol gweithrediadol. Lle y bo'n bosibl, bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn ceisio nodi cwsmeriaid o'r fath heb fod angen archwiliad meddygol.

Y categorïau eithrio yw:

- y rhai yr aseswyd eu bod 80% yn anabl at ddibenion budd-dal anabledd, Pensiwn Rhyfel neu Lwfans Anabledd Difrifol
- pobl sy'n cael cyfradd uchaf elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl a chyfraddau uwch y Lwfans Gweini Cyson a delir gyda Phensiynau Rhyfel neu Fudd-dal Anafiadau Diwydiannol
- pobl â salwch terfynol
- pobl a gofrestrwyd yn ddall
- pobl sy'n dioddef o'r cyflyrau meddygol difrifol canlynol:
  - salwch meddwl difrifol sy'n cynnwys afiechyd meddwl, sy'n effeithio'n ddifrifol ac yn andwyol ar ysbryd neu ymddygiad person, ac sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu gweithrediad cymdeithasol, neu eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd uniongyrchol
  - tetraplegia
  - paraplegia, neu symudiadau anwirfoddol na ellir eu rheoli neu atacsia sy'n golygu bod y dioddefwr yn baraplegig o ran gweithrediad i bob pwrpas
  - cyflwr diymateb parhaol
  - anableddau dysgu difrifol
  - afiechydon niwrolegol neu sy'n nychu'r cyhyrau sy'n ddifrifol ac yn gynyddol
  - ffurfiau gweithredol a chynyddol o bolyarthritis llidiol
  - nam cynyddol ar y gweithrediad cardio-anadlol sy'n cyfyngu'n ddifrifol ac yn barhaus ar oddefgarwch ymdrech
  - demensia

– parlys dwys o rannau uchaf y corff, y bongorff a rhannau isaf y corff ar un ochr o'r corff
– effeithiau lluosog nam ar weithrediad yr ymennydd a/neu'r system nerfol sy'n achosi diffygion echddygol synhwyraidd a deallusol difrifol na ellir eu gwella
– amlygiad cyflyrau diffyg imiwnedd difrifol a chynyddol a nodweddir gan achosion o afiechyd cyfansoddiadol difrifol neu heintiau manteisiol neu ffurfiad tiwmor.

Yn ogystal caiff pobl sy'n cael Lwfans Anabledd Difrifol ar 12 Ebrill 1995 eu trin fel pe baent yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd o dan yr Asesiad Gallu Personol os caiff tystysgrifau meddygol eu cyflenwi o hyd.

Cymhwyso'r Asesiad Gallu Personol

Mae'r adran hon yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer cymhwyso'r asesiad i'r rhan fwyaf o geisiadau. Mae'r asesiad iechyd meddwl yn nodi'r gweithdrefnau arbennig a gaiff eu hystyried ar gyfer y bobl hynny â phroblemau iechyd meddwl.

Holiadur

Er y caiff yr Asesiad Gallu Personol ei gymhwyso o'r 29ain wythnos o analluogrwydd fel arfer, gellir dechrau ar y gweithdrefnau ar gyfer asesu cyn y 29ain wythnos. Bydd y prawf 'galwedigaeth unigolyn' yn berthnasol yn ystod y 28 o wythnosau cyntaf i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid â galwedigaeth reolaidd.

Bydd y prawf 'galwedigaeth bersonol' yn seiliedig ar ddatganiad (ffurflen **MED 3**) gan feddyg y cwsmer ei hun y dylai'r cwsmer ymatal rhag gweithio. Bydd Tâl Salwch Statudol yn parhau i gael ei dalu am hyd at 28 wythnos i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio i gyflogwr. Bydd Budd-daliadau Analluogrwydd yn parhau i gael eu talu hyd nes y bydd y broses asesu wedi cael ei chwblhau.

Unwaith y bydd yr Asesiad Gallu Personol yn berthnasol bydd staff y Ganolfan Byd Gwaith yn ceisio nodi'r cwsmeriaid hynny sydd wedi'u heithrio o gamau casglu gwybodaeth yr asesiad - gweler ‘Categorïau wedi'u heithrio' ar dudalennau 14–15. Anfonir achosion o'r fath at y swyddog penderfyniadau i'w hasesu ar unwaith o ran p'un a ddylid trin y cwsmer fel pe baent yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd. Anfonir holiadur at y cwsmeriaid eraill (ffurflen **IB50W**).

Bydd yr holiadur yn gofyn am sylwadau'r cwsmer ar effeithiau eu cyflwr meddygol ym mhob un o'r meysydd gweithrediadol yn yr asesiad. Gofynnir i'r cwsmer nodi'r disgrifydd (drwy roi tic mewn blwch) ym mhob maes yr effeithir arno sy'n disgrifio effaith y cyflwr meddygol orau, ac i roi unrhyw wybodaeth bellach y credant y dylid ei hystyried. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i'r cwsmer roi gwybodaeth ar unrhyw anghenion arbennig a allai fod ganddynt. Gallai

anghenion arbennig gynnwys bod angen i'r cwsmer gael dehonglydd yn eu harchwiliad.

Bydd meddyg y cwsmer yn darparu datganiad (ffurflen **MED 4**), y tro cyntaf y cynhelir yr Asesiad Gallu Personol yn ystod cyfnod o analluogrwydd, gan nodi'r diagnosis o gyflwr y cwsmer a'i effeithiau sy'n peri anabledd. Gall y meddyg gynnwys gwybodaeth ychwanegol, ond ni fydd yn ofynnol iddynt ddarllen gwybodaeth y cwsmer yn yr holiadur, na rhoi sylwadau arni, na rhoi barn ar p'un a yw'r cwsmer yn analluog at ddibenion budd-daliadau.

Yna bydd y cwsmer yn dychwelyd yr holiadur a'r datganiadau i'r Ganolfan Gwaith. Bydd swyddog penderfyniadau yn ystyried p'un a geir digon o wybodaeth i benderfynu ar hawl i gael budd-daliadau. O ystyried amrywioldeb eang effeithiau cyflyrau meddygol rhwng unigolion, caiff y mwyafrif o achosion eu cyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i gymeradwyo ar gyfer barn feddygol.

Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ar y cais. Gall y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd benderfynu y gallant roi cyngor i'r swyddog penderfyniadau ar sail y dystiolaeth honno.

Gall y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd ystyried bod angen rhagor o wybodaeth gan feddyg y cwsmer ei hun a/neu y dylai'r cwsmer gael archwiliad meddygol. **Ni phenderfynir nad yw cwsmer yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd heb iddo gael archwiliad meddygol neu heb gynnig un iddo**.

Yr archwiliad meddygol

Nid yw archwiliad meddygol bob tro yn golygu y bydd y cwsmer yn cael archwiliad corfforol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Efallai mai dim ond siarad â'r cwsmer am sut mae eu salwch neu anabledd yn effeithio ar eu gweithgareddau bob dydd y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am ei wneud. Caiff y cwsmer gyfle i roi unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'w hasesiad.

Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried yr holl wybodaeth ac yn arfer safbwynt clinigol er mwyn llunio barn ar natur a difrifoldeb effeithiau'r cyflwr meddygol. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried ffactorau fel poen, blinder a phwysau ac amrywioldeb posibl y cyflwr. Er enghraifft, os mai dim ond drwy ddioddef poen sylweddol y gall rhywun gyflawni gweithgaredd penodol, ystyrir na allant gyflawni'r gweithgaredd hwnnw. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried effeithiau'r cyflwr ar y cwsmer dros amser, fel na fydd y farn yn seiliedig ar gipolwg o gyflwr y cwsmer ar ddiwrnod yr archwiliad meddygol.

Mae tasg y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd o ystyried effeithiau cyflwr yn wahanol i dasg meddyg teulu sydd angen cyflwyno

diagnosis a chynllunio triniaeth. Felly gall y cyfweliad a'r archwiliad fod yn wahanol i'r hyn y byddech yn disgwyl ei gael gan eich meddyg teulu.

Mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn rhoi cyngor i'r swyddog penderfyniadau ar gyfer pob maes gweithgaredd. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn rhoi eglurhad llawn o'u cyngor yn arbennig pan fydd y farn yn wahanol i ganfyddiad y cwsmer ei hun o'u cyfyngiadau gweithrediadol.

Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd hefyd yn rhoi cyngor i'r swyddog penderfyniadau ar p'un a oes unrhyw analluogrwydd nad yw'n weithrediadol a nodir ar dudalen 13 yn berthnasol.

Mae'r archwiliad hwn, gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd ar gyfer yr Asesiad Gallu Personol, yn wahanol i'r ymagwedd y gallai meddyg y cwsmer ei hun ei chymryd wrth ystyried p'un a yw'r cwsmer yn ddigon abl ar gyfer eu galwedigaeth arferol.

Lle y bo'n bosibl, mae'n ofynnol i'r Gwasanaethau Meddygol ddarparu gweithiwr gofal iechyd proffesiynol o'r un rhyw pan fydd y cwsmer yn gofyn am un. Efallai y bydd cwsmer am wneud trefniadau i berthynas neu ffrind fod yn bresennol yn ystod yr archwiliad.

Pan fydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn penderfynu y dylai cwsmer gael archwiliad meddygol mae'n bwysig bod y cwsmer yn cadw'r apwyntiad ac yn mynychu'r archwiliad. Gellir effeithio ar fudd-dal cwsmer os byddant yn methu'r apwyntiad heb reswm digonol. Dylai cwsmeriaid na allant fynychu'r archwiliad gysylltu â'r Ganolfan Archwiliad Meddygol ymlaen llaw i drefnu dyddiad arall.

Yr asesiad o iechyd meddwl

Problemau iechyd meddwl difrifol

Mewn unrhyw achos pan fydd problemau iechyd meddwl wedi'u nodi, gofynnir i feddyg(on) y cwsmer ei hun am wybodaeth i helpu i bennu difrifoldeb y broblem. Bydd y broses yn gwahaniaethu rhwng problemau iechyd meddwl difrifol a phroblemau iechyd meddwl ysgafn/cymedrol. Gall problemau difrifol gynnwys afiechyd meddwl, sy'n effeithio'n ddifrifol ac yn andwyol ar ysbryd neu ymddygiad unigolyn, ac sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu gweithrediad cymdeithasol, neu eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd uniongyrchol - gweler 'Categorïau wedi'u heithrio' ar dudalennau 14–15.

Problemau iechyd meddwl ysgafn/cymedrol

Gofynnir i'r holl gwsmeriaid eraill â phroblem iechyd meddwl gwblhau'r holiadur cyffredinol **IB50W** i weld a oes unrhyw anableddau corfforol neu synhwyrol yn bresennol. Yn ogystal â darparu lle i gofnodi manylion problemau iechyd meddwl, mae'r holiadur yn gofyn am fanylion unrhyw un

sy'n darparu triniaeth arbenigol ar hyn o bryd, er enghraifft, Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Nid yw'n gofyn cwestiynau penodol am iechyd meddwl. Bydd cymorth i gwblhau'r holiadur ar gael os bydd cwsmer angen hynny. Oni bai ei bod yn glir o'r dystiolaeth ysgrifenedig bod y cwmser yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd oherwydd anableddau corfforol neu synhwyrol fel arfer gofynnir iddynt fynychu archwiliad gan weithiwr iechyd proffesiynol a gymeradwywyd.

Disgrifwyr gweithrediad meddyliol

Mae rhan iechyd meddwl yr Asesiad Gallu Personol yn cwmpasu pedwar maes o weithgaredd:

- cwblhau tasgau
- byw o ddydd i ddydd
- ymdopi â phwysau, a
- rhyngweithio â phobl eraill.

Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn cyfweld â'r cwsmer er mwyn cael gwybodaeth am y broblem iechyd meddwl a sut mae'n effeithio ar y pedwar maes gweithgaredd. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi cyngor i'r swyddog penderfyniadau o dan y pedwar pennawd hyn. Bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi'r cyngor hwn mewn perthynas â'r cwestiynau a nodir ar dudalennau 30-31 yn adran 'Disgrifwyr iechyd meddwl'.

Caiff effeithiau unrhyw nam corfforol neu synhwyrol neu feddyginiaeth a gymerir gan y cwsmer eu hystyried hefyd.

Mewn unrhyw achos, os bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried bod cyflwr seiciatrig heb ei ganfod, gofynnir am ragor o wybodaeth gan y cwsmer ac, os bydd angen, gan feddyg y cwsmer.

Y trothwy ar gyfer budd-daliadau ar gyfer problemau iechyd meddwl yw 10 pwynt. Nid trothwy is ar gyfer budd-daliadau ar gyfer nam corfforol a synhwyrol yw hwn, ond canlyniad system sgorio wahanol. Mae'r trothwy is yn 6 phwynt. Pan fydd problem iechyd meddwl sy'n yn uwch na'r trothwy is yn bresennol gyda phroblem gorfforol neu synhwyrol, ychwanegir sgôr o 9 at y sgôr corfforol neu synhwyrol. Mae'r pwysoli hwn yn ystyried effaith waethygol benodol problemau iechyd meddwl ar allu i weithio, pan fydd wedi'i gyfuno ag anableddau corfforol a/neu synhwyrol. Y trothwy ar gyfer budd-daliadau ar gyfer gyfuniadau o'r fath yw 15.

Ar ôl asesu effeithiau problemau iechyd meddwl bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn ystyried p'un a fydd unrhyw analluogrwydd nad yw'n weithrediadol, a nodir ar dudalen 13, yn berthnasol i'r achos. Yna bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn rhoi cyngor priodol y bydd y swyddog penderfyniadau yn ei ystyried.

Sut y penderfynir ar asesiadau

Rôl y swyddog penderfyniadau

Fel gyda budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, y swyddog penderfyniadau fydd yn gwneud y penderfyniad ar hawl i gael Budd-dal Analluogrwydd neu gredydau, a bydd yn ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus. Bydd hyn yn cynnwys holiadur y cwsmer, y wybodaeth a ddarperir gan feddyg y cwsmer a chyngor y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd.

Os bydd y swyddog penderfyniadau yn canfod bod y cwsmer yn sgorio 15 o bwyntiau mewn un gweithgaredd, neu gyfanswm o 15 neu fwy o bwyntiau o gyfuniad o weithgareddau, caiff y trothwy analluogrwydd ei gyrraedd at ddibenion hawl i gael budd-daliadau (gweler tudalennau 19-20 os oes problemau iechyd meddwl). O ystyried y cyngor gan y meddyg a gymeradwywyd, bydd y swyddog penderfyniadau yn rhoi gwybod pan ddylid adolygu mater analluogrwydd y cwsmer. Bydd hyn yn dibynnu pryd y disgwylir y bydd newid yn y cyflwr meddygol yn digwydd.

Os yw'r sgôr yn 14 neu'n is, ystyrir nad yw'r trothwy analluogrwydd yn cael ei gyrraedd o dan yr Asesiad Gallu Personol (gweler tudalennau 19-20 os oes problemau iechyd meddwl). Ystyrir p'un a yw'r meddyg a gymeradwywyd wedi nodi bod unrhyw analluogrwydd nad yw'n weithrediadol a nodir ar dudalen 13 yn berthnasol. Ystyrir tystiolaeth feddygol arall gan feddyg neu ysbyty hefyd. Os ystyrir bod un neu fwy o'r meini prawf yn berthnasol ystyrir bod y cwsmer yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd.

Bydd yn ofynnol i feddyg y cwmser roi barn ar p'un a yw'r cwsmer yn ddigon abl ar gyfer eu galwedigaeth arferol cyn cymhwyso'r Asesiad Gallu Personol. Nid ystyrir y farn hon fel rhan o'r Asesiad Gallu Personol. Yn dilyn yr Asesiad Gallu Personol, hysbysir meddyg y cwsmer nad yw'n ofynnol iddynt gyhoeddi unrhyw dystysgrifau pellach ar gyfer y cyfnod presennol hwnnw o analluogrwydd. Fodd bynnag, gall y swyddog gwneud penderfyniadau ystyried tystiolaeth y cafwyd newid sylweddol yng nghyflwr meddygol y cwsmer.

Gwybodaeth am y penderfyniad

Os bydd y swyddog penderfyniadau yn penderfynu eich bod yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd, byddwch yn parhau i gael eich budd-daliadau neu gredydau fel arfer. Cewch eich hysbysu o benderfyniad y swyddog penderfyniadau. Cewch eich hysbysu hefyd pryd y bydd yn debygol y cynhelir eich asesiad nesaf.

Pan asesir nad yw cwsmer yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd, bydd eich taliadau Budd-daliadau Analluogrwydd neu gredydau oherwydd analluogrwydd yn dod i ben. Rhoddir cyngor ar gofrestru ar gyfer cyflogaeth a hawlio budd-daliadau eraill.

Os hoffech wybod mwy am ein penderfyniad neu os credwch ei fod yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n delio â'ch cwyn a gofynnwch i ni egluro ein penderfyniad a'r dystiolaeth feddygol y cafodd y penderfyniad ei selio arno. Dylech gysylltu â ni ar unwaith i ofyn am eglurhad.

Os credwch fod y penderfyniad yn anghywir o hyd, gallwch ofyn i ni edrych arno eto. Os gellir newid y penderfyniad, byddwn yn anfon penderfyniad newydd atoch. Os na allwn newid y penderfyniad, byddwn yn dweud pam wrthych.

Os byddwch yn dal yn anfodlon â'r penderfyniad, gallwch apelio i dribiwnlys apêl annibynnol.

Mewn unrhyw apêl, pan fydd yr anghydfod ynghylch difrifoldeb effeithiau'r cyflwr meddygol (pan fydd y cwsmer a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwywyd yn anghytuno ynghylch y difrifoldeb), bydd y tribiwnlys yn cynnwys aelod â chymhwyster meddygol sy'n feddyg.

Bydd gan unrhyw gwsmer sy'n anfodlon â phenderfyniad y tribiwnlys apêl hawliau pellach i apelio i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol ac i'r llysoedd, ond dim ond ar bwyntiau cyfreithiol.

I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau, darllenwch daflen **GL24DWPW** ‘Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir' y gellir ei chael o'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'n cynnwys ffurflen y gallwch ei defnyddio i ysgrifennu eich apêl.

Cofnodi newidiadau mewn amgylchiadau

Os bydd eich analluogrwydd yn newid neu os bydd eich cyflwr yn gwella

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os oes gwelliant yn eich cyflwr a'ch bod yn gallu gwneud mwy neu'n raddol yn dechrau teimlo'n well dros fwy o amser.

Gallai hyn fod o ganlyniad i:

- llawdriniaeth
- defnydd o gymhorthion neu offer
- newid yn eich meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrthym ar unwaith os bydd eich analluogrwydd yn newid.

Os bydd hyn yn digwydd efallai y bydd yn rhaid i ni edrych ar eich cais eto. Gallwn ofyn i chi lenwi ffurflen **IB50W**, sef holiadur Analluogrwydd i Weithio a mynychu asesiad meddygol.

Disgrifwyr a sgoriau ar gyfer pob gweithgaredd

Eistedd mewn cadair syth gyda chefn ond heb freichiau

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu eistedd yn gyfforddus	15
b Methu eistedd yn gyfforddus am fwy na 10 munud heb orfod symud o'r gadair oherwydd bod teimlad anghysurus yn golygu y byddai'n amhosibl parhau i eistedd	15
c Methu eistedd yn gyfforddus am fwy na 30 munud heb orfod symud o'r gadair oherwydd bod teimlad anghysurus yn golygu y byddai'n amhosibl parhau i eistedd	7
ch Methu eistedd yn gyfforddus am fwy nag awr heb orfod symud o'r gadair oherwydd bod teimlad anghysurus yn golygu y byddai'n amhosibl parhau i eistedd	3
d Methu eistedd yn gyfforddus am fwy na dwy awr heb orfod symud o'r gadair oherwydd bod teimlad anghysurus yn golygu y byddai'n amhosibl parhau i eistedd	0
dd Dim problem wrth eistedd	0

Codi o fod yn eistedd mewn cadair syth gyda chefn ond heb freichiau

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu codi o fod yn eistedd i fod yn sefyll	15
b Methu codi o fod yn eistedd i fod yn sefyll heb afael yn rhywbeth	7
c Methu codi o fod yn eistedd i fod yn sefyll weithiau heb afael yn rhywbeth	3
ch Dim problem wrth godi o fod yn eistedd i fod yn sefyll	0

Plygu a phenlinio

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu plygu i gyffwrdd y penliniau a sefyll yn syth wedyn	15
c Methu plygu neu benlinio, neu blygu a phenlinio weithiau, er enghraifft i godi darn o bapur oddi ar y llawr a sefyll yn syth wedyn	15
c Methu plygu neu benlinio, neu blygu a phenlinio weithiau, er enghraifft i blygu a phenlinio, er enghraifft i godi darn o bapur oddi ar y llawr a sefyll yn syth wedyn	3
ch Dim problem wrth blygu a phenlinio	0

Sefyll heb gymorth person arall; gellir defnyddio ffon gerdded

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu sefyll heb gymorth	15
b Methu sefyll am fwy na munud cyn gorfod eistedd i lawr	15
c Methu sefyll am fwy na 10 munud cyn gorfod eistedd i lawr	15
ch Methu sefyll am fwy na 30 munud cyn gorfod eistedd i lawr	

eistedd i lawr	7
d Methu sefyll am fwy na 10 munud cyn gorfod symud	7
dd Methu sefyll am fwy na 30 munud cyn gorfod symud	3
e Dim problem wrth sefyll	0

Cerdded ar lawr gwastad gyda ffon gerdded neu gymorth arall os y'i defnyddir fel arfer

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu cerdded o gwbl	15
b Methu cerdded mwy nag ychydig gamau heb aros neu fod yn anghyfforddus iawn	15
c Methu cerdded mwy na 50 metr heb aros neu fod yn anghyfforddus iawn	15
ch Methu cerdded mwy na 200 metr heb aros neu fod yn anghyfforddus iawn	7
d Methu cerdded mwy na 400 metr heb aros neu fod yn anghyfforddus iawn	3
dd Methu cerdded mwy na 800 metr heb aros neu fod yn anghyfforddus iawn	0
e Dim problem wrth gerdded	0

Cerdded i fyny ac i lawr y grisiau

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu cerdded i fyny ac i lawr un gris	15
b Methu cerdded i fyny ac i lawr 12 o risiau	15
c Methu cerdded i fyny ac i lawr 12 o risiau heb ddal gafael a chymryd saib	7
ch Methu cerdded i fyny ac i lawr 12 o risiau heb ddal gafael	3
b Methu cerdded i fyny ac i lawr 12 o risiau os byddwch yn mynd i'r ochr neu'n mynd fesul cam	3
dd Dim problem wrth gerdded i fyny ac i lawr y grisiau	0

Medrusrwydd â dwylo

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu troi tudalennau llyfr gyda'r naill law na'r llall	15
b Methu troi tap sinc neu'r byliau rheoli ar bopty gyda'r naill law na'r llall	15
c Methu codi darn o arian sydd 2.5 centimetr neu lai ar draws gyda'r naill law na'r llall	15
ch Methu defnyddio pen neu bensil	15
d Methu clymu careiau neu linyn	10
dd Methu troi tap sinc neu byliau rheoli ar bopty gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	6
e Methu codi darn o arian sy'n 2.5 centimetr neu lai ar draws gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	6
f Dim problem â medrusrwydd â dwylo	0

Ymestyn

Disgrifydd	Pwyntiau
ch Methu codi'r naill fraich na'r llall er enghraifft i roi rhywbeth ym mhoced uchaf côt neu siaced	15
b Methu codi'r naill law na'r llall at eu pen er enghraifft i wisgo het	15
c Methu rhoi'r naill fraich na'r llall y tu ôl i'w cefn i wisgo côt neu siaced	15
ch Methu codi'r naill law na'r llall uwch eu pen er enghraifft i estyn am rywbeth	15
d Methu codi un fraich at eu pen er enghraifft i wsgo het gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	6
dd Methu codi un fraich at eu pen er enghraifft i estyn am rywbeth gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	0
e Dim problem wrth ymestyn	0

Codi a chario gan ddefnyddio rhan uchaf y corff a'r breichiau

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu codi llyfr clawr meddal gyda'r naill law na'r llall	15
b Methu codi a chario carton 0.5 litr (tua pheint) o laeth gyda'r naill law na'r llall	15
c Methu codi ac arllwys o sosban neu degell llawn sy'n dal 1.7 litr gyda'r naill law na'r llall	15
ch Methu codi a chario sach 2.5kg o datws gyda'r naill law na'r llall	8
d Methu codi a chario carton 0.5 litr o laeth gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	6
dd Methu codi a chario sach 2.5kg o datws gydag un llaw ond yn gallu gyda'r llall	0
e Dim problem wrth godi a chario	0

Golwg mewn golau dydd arferol gyda sbectol

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu gwahaniaethu rhwng golau a thywyllwch	15
b Methu gweld siâp dodrefn yn yr ystafell	15
c Methu gweld yn ddigon da i ddarllen print maint 16 pwynt yn fwy na 20 centimetr i ffwrdd	15
ch Methu gweld yn ddigon da i adnabod ffrind ar draws yr ystafell o bellter o 5 metr o leiaf	12
d Methu gweld yn ddigon da i adnabod ffrind ar draws yr ystafell o bellter o 15 metr o leiaf	8

dd Dim problem golwg 0

Lleferydd

Disgrifydd	Pwyntiau
a Methu siarad	15
b Teulu neu ffrindiau yn methu eu deall yn siarad	15
c Pobl ddieithr yn methu eu deall yn siarad	15
ch Pobl ddieithr yn cael anhawster mawr i'w deall yn siarad	10
d Pobl ddieithr yn cael rhywfaint o anhawster i'w deall yn siarad	8

dd Dim problem gyda lleferydd	0

Clywed gyda chymorth clywed os y'i defnyddir

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu clywed synau o gwbl	15
b Methu clywed yn ddigon da i ddilyn rhaglen deledu gyda'r sain wedi'i droi i fyny	15
c Methu clywed yn ddigon da i ddeall rhywun yn siarad mewn llais uchel mewn ystafell dawel	15
ch Methu clywed yn ddigon da i ddeall rhywun yn siarad mewn llais arferol mewn ystafell dawel	10
d Methu clywed yn ddigon da i ddeall rhywun yn siarad mewn llais arferol ar stryd brysur	8
dd Dim problem gyda chlyw	0

Aros yn ymwybodol heb gael trawiad epileptig neu drawiadau tebyg pan yn effro

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Cael episod anwirfoddol o golli neu amharu ar eu hymwybyddiaeth o leiaf unwaith y dydd	15
b Cael (fel uchod) o leiaf unwaith yr wythnos	15
c Cael (fel uchod) o leiaf unwaith y mis	15
ch Wedi cael (fel uchod) o leiaf ddwywaith yn ystod y chwe mis cyn cymhwyso'r prawf	12
d Wedi cael (fel uchod) unwaith yn ystod y chwe mis cyn cymhwyso'r prawf	8
dd Wedi cael (fel uchod) unwaith yn ystod y tair blynedd ddiwethaf cyn cymhwyso'r prawf	0
e Dim problemau gydag ymwybyddiaeth	0

Ymataliaeth (heblaw enwresis - gwlychu'r gwely)

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Dim rheolaeth wirfoddol dros y coluddyn	15
b Dim rheolaeth wirfoddol dros y bledren	15
c Colli rheolaeth o'r coluddyn o leiaf unwaith yr wythnos	15
ch Colli rheolaeth o'r coluddyn o leiaf unwaith y mis	15
d Colli rheolaeth o'r coluddyn yn achlysurol	9
dd Colli rheolaeth o'r bledren o leiaf unwaith y mis	3
e Colli rheolaeth o'r bledren yn achlysurol	0
f Dim problem gydag ymataliaeth	0

Disgrifwyr iechyd meddwl

Cwblhau tasgau

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu ateb y ffôn a chymryd neges yn ddibynadwy	2
b Yn aml yn eistedd am oriau yn gwneud dim	2
c Methu canolbwyntio i ddarllen erthygl mewn cylchgrawn	

neu ddilyn rhaglen radio neu deledu	1
ch Methu defnyddio llyfr ffôn neu gyfeirlyfr arall i ddod o hyd i rif	1
d Eu cyflwr meddwl yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden roeddent yn arfer eu mwynhau	1
dd Anwybyddu neu'n anghofio'r risg a gyflwynir gan offer domestig neu beryglon cyffredin eraill oherwydd na allant ganolbwyntio'n dda	1
e Cyffro, dryswch neu anghofrwydd wedi arwain at ddamweiniau a allai fod yn beryglys yn ystod y tri mis cyn cymhwyso'r prawf	1
h Dim ond gydag anogaeth y gellir parhau i ganolbwyntio	1

Byw o ddydd i ddydd

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Angen anogaeth i godi a gwisgo	2
b Angen alcohol cyn hanner dydd	2
c Wedi cynhyrfu'n aml ar ryw adeg o'r dydd oherwydd newid mewn ysbryd	1
ch Nid oes ots ganddynt am eu hymddangosiad a'u hamodau byw	1
d Mae problemau cwsg yn ymyrryd â gweithgareddau yn ystod y dydd	1

Ymdopi â phwysau

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Pwysau meddyliol yn ffactor i wneud iddynt roi'r gorau i weithio	2
b Teimlo ofn neu banig yn aml am ddim rheswm amlwg	2
c Osgoi cyflawni gweithgareddau rheolaidd am eu bod wedi'u darbwyllo y byddant yn rhy flinedig neu'n golygu y byddant o dan ormod o bwysau	1
ch Methu ymdopi â newidiadau mewn trefn ddyddiol	1
d Yn gweld yn aml fod cymaint o bethau i'w gwneud fel eu bod yn rhoi'r gorau iddi oherwydd blinder, apathi neu ddiffyg diddordeb	1
dd Ofn neu'n bryderus y byddai gwaith yn dod â'u salwch yn ôl neu'n ei waethygu	1

Rhyngweithio â phobl eraill

Disgrifydd	**Pwyntiau**
a Methu gofalu amdanynt eu hunain heb gael help gan eraill	2
b Cael eu digalonni gan ddigwyddiadau arferol sy'n arwain at broblem ymddygiadol	2
c Problemau meddwl yn amharu ar eu gallu i gyfathrebu â phobl eraill	2
ch Cael eu cythruddo gan bethau na fyddai wedi eu poeni o'r blaen cyn iddynt fynd yn sâl	1
d Mae'n well ganddynt fod ar eu pen eu hunain am chwe	

awr neu fwy bob dydd 1
dd Maent yn rhy ofnus i fynd allan ar eu pen eu hunain 1

Rhagor o wybodaeth

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau yn gysylltiedig â Budd-dal Analluogrwydd, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn ar dudalennau busnes y llyfr ffôn.

Mynegai

A

Adroddiad Gallu 6
Afiechyd heb ei reoli 1 4
Afiechyd meddwl 14
Afiechydon
    perygl i fywyd 13
    niwrolegol 14
    cyfansoddiadol difrifol 15
Afiechydon niwrolegol 14
Afiechydon sy'n berygl i fywyd 14
Afiechydon sy'n nychu'r cyhyrau 14
Amau penderfyniad 22
Anableddau
    cyfuniadau o 13
    dysgu difrifol
Anableddau dysgu 14
Analluogrwydd
    ar ôl y 28 wythnos cyntaf 11
    newidiadau i 23
    nad yw'n weithrediadol 11
    trothwy o 6, 11
Analluogrwydd nad yw'n weithrediadol 5,20,11
Apeliadau 22
Archwiliad meddygol 17
Asesiad Gallu Personol 5, 11
Asesiad meddygol 23
Asesiadau
    cymhwyso'r Gallu Personol 16
    gweithrediadol 13
    iechyd meddwl 19
    Gallu Personol 16
Atacsia 14

B

Budd-dal anabledd 14

Budd-dal Anafiadau Diwydiannol 14
Budd-dal Treth Gyngor 6
Budd-dal, trothwy ar gyfer 11

C
Categorïau, wedi'u heithrio 14 - 15
Cwrs hyfforddi a ragnodwyd ar gyfer meddygon 9
Cyflwr diymateb 14
Cyflwr diymateb parhaol 14
Cyflwr seiciatrig, heb ei ganfod 20
Cyflyrau
wedi'u heithrio 14 - 15
gwella 23
perygl i fywyd 13
Cyflyrau diffyg imiwnedd 15
Cyflyrau heb eu canfod
perygl i fywyd 13
seiciatrig 20
Cyfuniadau o anableddau 13
Cymhorthdal Incwm 6
Cymhwyso'r Asesiad Gallu Personol 16

D
Dall 14
Demensia 15
Diffygion deallusol 15
Diffygion echddygol synhwyraidd 15
Dilysu Ansawdd Meddygol 10
Disgrifwyr
ar gyfer pob gweithgaredd 24
iechyd meddwl 30
14

E
Ein Safonau Gwasanaeth 7
Esboniad
o ganlyniad yr asesiad 18
o'r penderfyniad 22

FF
Ffurfiad tiwmor 15

G
Gweithdrefnau, ar gyfer cynnal asesiad 16 - 18
Gweithgareddau 12
asesu gallu ar gyfer 12
disgrifiwyr a sgorau ar gyfer 24 – 31
Gweithgareddau corfforol 12
Gweithgareddau meddyliol 12

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol
hyfforddiant 9
proses gymeradwyo ar gyfer 8, 9
safonau proffesiynol 10
Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a gymeradwyir 5
Gweithrediad meddyliol, disgrifwyr 20
Gweithrediad cardio-anadlol 15
Gwelliannau yn eich cyflwr 23
Gwneud penderfyniad, egwyddorion 7
Gwybodaeth am y penderfyniad 22

H
Heintiau manteisiol 15
Holiaduron 16
Hyfforddiant, meddygon a gymeradwywyd 9

I
Iechyd meddwl 19
asesiad o 19
disgrifwyr 30
problemau ysgafn i gymedrol 19
problemau difrifol 19
trothwy ar gyfer budd-daliadau 11

L
Lwfans Anabledd Difrifol 6, 14
Lwfans Byw i'r Anabl 14
Lwfans Gweini Cyson 14

LL
Llawdriniaethau meddygol 13

M
Meddyginiaeth, effeithiau 22
Meddygon 8
y cwsmer ei hun 16
Mwy nag un anabledd 13

N
Nam ar y gweithrediad cardio-anadlol 15
Nam corfforol, effaith 20
Nam cynyddol ar y gweithrediad cardio-anadlol 15
Nam synhwyraidd, effaith 20
Newid mewn amgylchiadau 23

P
Paraplegia 14
Parlys 15
Penderfyniad anghywir 22

Pensiwn Rhyfel 14
Polyarthritis llidiol 14
Polyarthritis llidiol cynyddol 14
Polyarthritis llidiol gweithredol 14
Prawf 5
galwedigaeth unigolyn 5,11,16
Prawf galwedigaeth bersonol 5, 11

R
Risg sylweddol i iechyd 13

S
Safonau Gwasanaeth 7
Safonau proffesiynol 10
Salwch meddwl 19
Salwch parhaol 14
Sgorau 24
ar gyfer pob gweithgaredd 24
ar gyfer disgrifwyr iechyd meddwl 30
set o 11
wedi'i fesur 13, 20
Sgorau wedi'u pwysoli 13, 20
Swyddog gwneud penderfyniadau 5, 8
Symudiadau anwirfoddol 14

T
Tâl Salwch Statudol 16
Tribiwnlysoedd 22
Tribiwnlysoedd apêl annibynnol 22
Trothwy ar gyfer budd-daliadau 11
analluogrwydd 5,15,22
iechyd meddwl 14
is 11
Trothwy is ar gyfer budd-daliadau 11
Tystiolaeth feddygol gan ysbyty neu feddyg 21
Tystysgrifau 15

Cofiwch mai arweiniad yn unig yw'r daflen hon. Ni fwriedir iddi ddweud yn union beth yw eich hawliau cyfreithiol. Er ein bod wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir ar y clawr, mae'n bosibl bod rhywfaint o wybodaeth yn anghywir neu efallai bod rhai eitemau wedi'u gorsymleiddio. Hefyd, dylech gofio ei bod yn debygol y bydd y wybodaeth yn y daflen hon yn dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i gymhwyso egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau